




# Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Testun



Medi 2018

Papur Testun 8: Trafnidiaeth

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: [www.conwy.gov.uk/cdlln](http://www.conwy.gov.uk/cdlln) Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gallwn ddarparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print mawr a gallwn ei chyfieithu i ieithoedd eraill, cysylltwch â y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

## Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Pwrpas y Papur Testun hwn.....	4
3. Newidiadau Allweddol i Ddeddfwriaeth a Pholisi (ers mabwysiadu'r CDLI).....	4
3.1 Cenedlaethol.....	4
3.2 Rhanbarthol .....	6
3.3 Lleol.....	7
4. Polisi CDLI – Sefyllfa Bresennol .....	8
5. Canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar y CDLI a Chasgliadau'r Adroddiad Adolygu.....	12
6. Sail Dystiolaeth CDLI wedi'i Diweddarau.....	13
7. Polisiâu a Chynigion Defnydd Tir Posibl.....	14
Yr Angen am Sail Dystiolaeth Bellach .....	14
Materion a phroblemau allweddol.....	14

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn bennaf oll yn gynllun defnydd tir sy'n nodi'r cyfleoedd i ddatblygu ar safle penodol mewn ymateb i anghenion y gymuned am fwy o dai, swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae hefyd yn ceisio cadw, diogelu a gwella, lle bo'n briodol, yr agweddau hynny o'r amgylchedd adeiledig a naturiol sy'n bwysig i ddiffinio ansawdd a sensitifrwydd y lleoedd yr ydym yn eu gwerthfawrogi, mwynhau, symud drwyddynt ac yn byw ynddynt. Prif nod y CDLI fydd darparu datblygu cynaliadwy.

Mae'r CDLI yn fodd i'r Cyngor ddiffinio ei brif flaenoriaethau twf a datblygiad a bydd yn darparu'r fframwaith parhaus o bolisiau i arwain penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Rhan o hyn yw'r canllawiau mewn perthynas â chludiant ac unrhyw ddynodiadau o ganlyniad i'r cynlluniau a strategaethau perthnasol.

## 2. Pwrpas y Papur Testun hwn

Mae hwn yn un o 12 papur testun a luniwyd i lywio cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (CDLIN). Y nod yw dehongli'r dystiolaeth a'r canllawiau perthnasol mewn perthynas â'r testun penodol a nodi'r prif faterion y bydd angen ymdrin â nhw yn y Cynllun yn ogystal â chymau polisi posibl i'w cynnwys yn y Cynllun. Mae pob papur testun wedi eu llunio o dystiolaeth fanwl yn deillio o Bapurau Cefndir CDLI (dogfennau technegol sy'n ffurfio sail y dystiolaeth ar gyfer y CDLIN). Mae papurau testun wedi'u cynllunio i ymdrin â phrif feysydd pwnc yr ymdrinnir â hwy ar hyn o bryd yn y CDLI mabwysiedig ac maent yn crynhoi data technegol a gaiff ei gynnwys o fewn y Papurau Cefndir i wneud cyflwyno'r data yn fwy hygyrch i ddarllenwyr. Mae papurau testun yn sefydlu sefyllfa llinell sylfaen ac yn nodi'r prif faterion sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol fydd angen mynd i'r afael â nhw yn y CDLIN.

Mae'r Papurau Testun yn rhoi cyfle buan i fudd-ddeiliaid a'r cyhoedd gyfrannu at y Cynllun. Mae'r papur testun hwn yn ymwneud â materion allweddol mewn perthynas â Chludiant a'r broses cynllunio strategol.

## 3. Newidiadau Allweddol i Ddeddfwriaeth a Pholisi (ers mabwysiadu'r CDLI)

### 3.1 Cenedlaethol

Mae rheolaeth cynllunio o ran Cludiant yn cael ei darparu mewn sawl darn o ddeddfwriaeth a chanllaw. O ran y prif ddeddfau mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer rheoli datblygu sy'n effeithio ar yr amgylchedd naturiol, tirlun, cludiant, ynni a'r fframwaith o ran cynnal rheolaeth dros ddarparu a diogelu.

#### **Polisi Cynllunio Cymru Drafft (Rhifyn 10, 2018)**

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn amlinellu polisiau cynllunio defnydd tir cenedlaethol LIC. Fe'i ategir gan Nodiadau Cyngor Technegol (TAN); cyngor gweithdrefnol a roddir mewn cylchlythyrau, a llythyrau egluro polisi. Ni chaiff Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol eu hailadrodd trwy'r Cynllun, ond rhaid eu hystyried wrth reoli datblygu a'r defnydd o dir er lles y cyhoedd a chyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy.

Mae'n nodi dylai'r system gynllunio hwyluso darparu, datgarboneiddio a gwella isadeiledd cludiant mewn ffyrdd sy'n gostwng yr angen i deithio, yn enwedig gyda cherbydau preifat ac yn hyrwyddo cludiant cynaliadwy.

Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi'r gwelliannau isadeiledd cludiant angenrheidiol a sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw datblygiadau o'r fath yn cyfrannu at flerdwf trefol neu wahanu cymdogol.

### **Datganiad Polisi Ynni – Ynni Cymru: Newid i Economi Carbon Isel (2012).**

Mae angen darllen hyn ar y cyd â'r polisi cynllunio cludiant ehangach yn y thema Lleuedd Egniïol a Chymdeithasol.


Y blaenoriaethau allweddol yw:

- Lleihau'r ynni a ddefnyddiwn yng Nghymru;
- Lleihau ein dibyniaeth ar ynni a gynhrychir o danwydd ffosil; a
- Rheoli'r newid i economi carbon isel yn weithredol.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar holl gyrff cyhoeddus Cymru i 'ymgymryd â datblygu cynaliadwy' er mwyn cyflawni'r nodau lles, sef:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynol;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.



Wrth i'r Ddeddf hon gael ei chyflwyno, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i sefydlu gyda'r dasg o gynnal asesiad lles a llunio Cynllun Lles ar gyfer Conwy.

### 3.2 Rhanbarthol

#### Strategaeth Gludiant Lleol

Cyhoeddwyd canllawiau ar baratoi Cynlluniau Cludiant Lleol 2015 gan LIC ym mis Mai 2014. Mae'r canllawiau ar gynlluniau cludiant lleol yn nodi'r dull y mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau cludiant lleol ei fabwysiadu wrth gydymffurfio â'u dyletswydd a'r broses sydd i'w dilyn i gael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru ar gyfer cynlluniau cludiant lleol.

Mae'r canllaw yn tynnu sylw at "nad yw'r gofyniad i gynhyrchu cynllun cludiant lleol yn newydd a bydd gan awdurdodau lleol ddeunydd sylweddol i'w ddefnyddio wrth baratoi eu CTLI".

Cynhyrchwyd y Cynllun Cludiant Lleol (LTP) ar y cyd gan chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r cynllun yn cwmpasu rhannau gogleddol Gwynedd gyda Meirionnydd yn cael ei gynnwys yn yr LTP ar gyfer Canolbarth Cymru.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri o fewn ardal Gogledd Cymru ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynllun.

Cyflwynodd Deddf Trafnidiaeth 2000 ofyniad statudol i awdurdodau cludiant lleol gynhyrchu Cynllun Cludiant Lleol (LTP) bob pum mlynedd ac i gadw llygad arno'n barhaus. Diwygiwyd hyn gan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 i alluogi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae Offeryn Statudol Cymru 2014 Rhif 2178 yn cynnwys addasiad o'r rhwymedigaeth i gynhyrchu LTP o dan adran 108 o Ddeddf 2000 fel y gall awdurdod cludiant lleol:

- a) paratoi cynllun cludiant lleol mewn perthynas â rhan yn unig o'i ardal;
- b) ar y cyd ag un neu ragor o awdurdodau cludiant lleol, paratoi cynllun trafndiaeth lleol mewn perthynas ag ardal sy'n cynnwys yr holl ran neu rannau o'u hardal gyfun.

Amcanion:

Dylai cynlluniau datblygu nodi a chynnwys polisiâu a chynigion sy'n ymwneud â datblygu isadeiledd cludiant a gwasanaethau cysylltiedig (megis cyfleusterau cyfnewid cludiant cyhoeddus, cyfleusterau rheilffyrdd, porthladdoedd a meysydd awyr), gan gynnwys ardaloedd a ddiogelir ar gyfer isadeiledd/ llwybrau cludiant yn y dyfodol. Lle bo modd, dylid dangos llwybr yr isadeiledd newydd neu well arfaethedig yn y cynllun datblygu. Pan na wyddys yr union lwybr, gellir cymhwyso polisi diogelu i'r ardal o dir sydd ei angen ar gyfer y cynllun.

Nod Llywodraeth Cymru yw ymestyn dewis mewn cludiant a sicrhau hygyrchedd mewn ffordd sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy ac sy'n helpu i fynd i'r afael ag achosion newid hinsawdd trwy:

- annog system gludiant fwy effeithiol ac effeithlon, gyda mwy o ddefnydd o'r dulliau teithio mwy cynaliadwy ac iach, a lleihau'r angen i deithio. Cyflawnir hyn trwy integreiddio:
  - o fewn a rhwng gwahanol fathau o gludiant;
  - rhwng mesurau cludiant a chynllunio defnydd tir;

- rhwng mesurau cludiant a pholisïau i amddiffyn a gwella'r amgylchedd;  
a
- rhwng mesurau cludiant a pholisïau ar gyfer addysg, iechyd, cynhwysiant cymdeithasol a chreu cyfoeth.

Er enghraifft, bydd sicrhau bod datblygiad yn hygyrch trwy gyfrwng heblaw'r car preifat yn helpu i gwrdd ag amcanion LIC ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol. Bydd annog beicio a cherdded yn cyfrannu at y nod o wella lefelau iechyd yng Nghymru.

Gall cynllunio defnydd tir helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer cludiant trwy:

- lleihau'r angen i deithio, yn enwedig gyda char preifat, trwy leoli datblygiadau lle mae mynediad da wrth gerdded, beicio a chludiant gyhoeddus;
- lleoli datblygiad ger defnyddiau cysylltiedig eraill er mwyn annog teithiau amlbwrpas a lleihau hyd y teithiau;
- gwella hygyrchedd trwy gerdded, beicio a chludiant gyhoeddus;
- sicrhau bod cludiant yn hygyrch i bawb, gan ystyried anghenion pobl anabl a phobl â llai o symudedd nag eraill;
- hyrwyddo cerdded a beicio;
- cefnogi'r ddarpariaeth o gludiant gyhoeddus o safon uchel;
- cefnogi mesurau rheoli traffig;
- hyrwyddo opsiynau cludiant cynaliadwy ar gyfer cludo nwyddau a masnach;
- cefnogi opsiynau teithio cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig;
- cefnogi gwelliannau isadeiledd angenrheidiol; a
- sicrhau nad yw isadeiledd cludiant, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, yn cyfrannu at gymryd tir, blerdwf trefol neu gwahanu cymdogol.

### **Twf 360/ Metro**

Mae Metro Gogledd Cymru yn rhaglen gan LIC sy'n anelu at greu rhwydwaith cludiant integredig ar draws y rhanbarth i "gysylltu pobl, cymunedau a busnesau i swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau a sicrhau'r cyfleoedd economaidd mwyaf posibl o gysylltedd ledled Cymru a'n ffiniau." Mae'n seiliedig ar gwaith Tasglu Integredig Gogledd Ddwyrain Cymru, a sefydlwyd gan LIC yn 2013 a ddatblygodd weledigaeth ar gyfer Metro ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae'r cwrpas yn cael ei ehangu i gynnwys y rhanbarth cyfan, er bod y rhaglen yn dal i gael ei alw'n swyddogol yn 'Metro Gogledd Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru'. Ffocws y rhaglen yw cludiant gyhoeddus a mynediad iddo (nid ffyrdd).

## **3.3 Lleol**

### **Cynllun Teithio Llesol**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi mapiau sy'n nodi llwybrau presennol a llwybrau posibl i'w defnyddio yn y dyfodol yn ogystal â sicrhau bod cynlluniau ffyrdd newydd (gan gynnwys cynlluniau gwella ffyrdd) yn ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn y cam dylunio.

Daeth cyfnod ymgynghori cychwynnol CBS Conwy ar gynhyrchu mapiau llwybrau presennol i ben ddechrau Ionawr 2016 gyda'r Awdurdod yn cyflwyno'r mapiau llwybr archwiliedig i'w cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 22 Ionawr 2016.

## Diffiniad Llywodraeth Cymru o 'Teithio Llesol'

- Mae Teithio Llesol yn golygu cerdded neu feicio fel dewis arall i gludiant modur (ceir, bysiau ayb) i'r diben o wneud teithiau bob dydd. Mae'r term "cerddwr" yn cynnwys yr holl ddefnyddwyr nad ydynt yn rhai modur, e.e. cadeiriau olwyn, cadeiriau olwyn trydan, sgwteri symudedd a chymhorthion symudedd eraill.
- Mae Teithio Llesol yn 'siwrnai a wneir i weithle neu sefydliad addysgol neu i gael gafael ar wasanaethau neu gyfleusterau eraill'. Mae hyn yn cwmpasu, er enghraifft, cymudo pellter byr, teithio i'r ysgol, siopau, cyfleusterau hamdden ac ati. Mae'n rhaid i'r llwybr gysylltu â chyfleusterau a gwasanaethau a bod yn addas ar gyfer teithiau, cyfleustodau bob dydd. Nid yw'n cynnwys llwybrau na rhannau o lwybrau sy'n cael eu defnyddio'n unig at ddibenion hamdden neu hamddena.

Targed: 24 Medi 2020 Ailgyflwyno'r map llwybr presennol (ERM) a'r map rhwydwaith integredig (INM) i LIC.

## 4. Polisi CDLI – Sefyllfa Bresennol

Dylai cynlluniau datblygu bennu polisiau i gynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus. Dylent nodi a hwyluso llwybrau, mesurau a chyfleusterau cludiant cyhoeddus priodol. Dylai hyn ystyried cynigion yn y Cynllun Cludiant Lleol, a allai gynnwys gwell cyfleusterau ar gyfer teithwyr bws, cynlluniau parcio a theithio, llinellau rheilffyrdd newydd (gan gynnwys rheilffyrdd ysgafn), ailagor llinellau rheilffyrdd, darparu gorsafoedd newydd, a gwell gwasanaethau i deithwyr ar linellau presennol.

Mae yna lawer o bwysau ar yr amgylchedd ac nid yw pob un o ganlyniad, neu dan reolaeth, y system gynllunio ac mae rhywfaint o hyn o ganlyniad i gludiant a symudiadau pobl a nwyddau. Fodd bynnag, mae CDLI Conwy wedi perfformio'n dda wrth hyrwyddo lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygu a mynd i'r afael â materion a strategaethau trawsffiniol.

### Polisiau:

Polisi STR/1 Cludiant Cynaliadwy, Datblygu a Hygyrchedd yw'r polisi cyffredinol ar gyfer pob datblygiad cludiant cynaliadwy a chyfeiriwyd yn helaeth ato trwy reoli datblygu wrth asesu ceisiadau cynllunio. Bydd rhai diweddariadau a chysylltiadau â'r Cynllun Teithio Llesol (ATP) yn cael eu cyflwyno trwy'r CDLIN.

Cyfeiriwyd yn helaeth at Bolisi STR/2 Safonau Parcio, ac mewn cyfuniad â'r SPG Safonau Parcio, mae'n nodi'r gofynion yn glir ac ni ystyrir bod unrhyw newidiadau yn angenrheidiol ar hyn o bryd.

Mae Polisi STR/3 Lliniaru Effaith Teithio yn glir yn ei ofynion ac nid oes angen newid.

Mae Polisi STR/4 Teithio Di-Fodur yn fecanwaith cefnogol ar gyfer cynlluniau gan gynnwys teithio di-fodur. Bydd y polisi hefyd yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â pholisiau eraill y CDLI a chynlluniau a strategaethau cysylltiedig i sicrhau bod y dull polisi cynllunio yn glir.

Mae Polisi STR/5 System Cludiant Cynaliadwy Integredig yn fecanwaith cefnogol ar gyfer cynlluniau gan gynnwys teithio di-fodur. Bydd y polisi hefyd yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â pholisiau eraill y CDLI a chynlluniau a strategaethau cysylltiedig i sicrhau bod y dull polisi cynllunio yn glir. Wrth restru cynlluniau, bydd angen diwygio'r polisi hefyd yn yr adolygiad i gynnwys cynlluniau eraill yn y dyfodol a chysylltiadau i'r Cynllun Teithio Llesol a chynlluniau a hyrwyddir gan STR / 4.



Mae Polisi STR / 6 Llwythi Rheilffyrdd yn gefnogaeth o ardaloedd dynodedig ar gyfer cludo nwyddau yn unig. Mae'r rhesymau y tu ôl i'r angen am y tir yn bennaf oherwydd rheolaeth cynllunio, ond ni nodwyd unrhyw effaith negyddol fel rhan o'r gwaith monitro.

Nid oes pryderon ynghylch gweithredu'r polisiau yn gyffredinol ac mae'r adran yn perfformio'n dda yn ei chyfarwydd.

**Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA).**

Mae'r Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd yn amlinellu'r dull arfaethedig o ran Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLIN, yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol yn broses bwysig o ran nodi meysydd sy'n newid a mesurau lliniaru i sicrhau bod y CDLIN yn gynaliadwy.

Mae proses Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol ar y gweill a bydd yn symud yn gyfochrog â'r CDLIN gydag ymgynghoriad ym mhob cam.

Mae'r tablau isod yn tynnu sylw at ffynonellau data gwaelodlin ar gyfer yr adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd:

<p><b>Allyriadau Nwyon Tŷ</b>  <b>Gwydr:</b> Mae ystadegau o InfoBase Cymru yn 2015 yn dangos bod allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) o fewn CBSC (4.9) yn dangos fod lefelau CO2 fesul preswlydd (tunnell) yn is na chyfartaledd Cymru (8.0) yn 2016. Er yn gadarnhaol, mae angen gwneud gosrtyngiadau parhaus yn lefel yr allyriadau GHG.</p> <p>Darparodd CBSC 2.7% o gynhyrchiant ynni carbon isel ar gyfer Cymru yn 2015. Fodd bynnag, gellir gwella hyn trwy gynhyrchu mwy o gapasiti adnewyddadwy yn y dyfodol.</p>	<p>Oherwydd natur wledig CBSC, dylid lliniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr o gludiant nwyddau trwm gwledig, gyda datblygiad lleol yn ffafrio mewn mannau mwy hygrych i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.</p>	<p>Dylai unrhyw CDLI newydd sy'n deillio o'r Adolygiad CDLI hwn bennu polisiau, cynigion a chanllawiau i gefnogi'r newid i economi carbon isel. Dylai hyn gynnwys darparu fframwaith polisi cefnogol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel mewn lleoliadau priodol. Dylai'r CDLI newydd hefyd gynnwys polisiau i annog dylunio carbon isel a dylai nodi strategaeth cludiant cynaliadwy sy'n cyfalafu ar yr isadeiledd rheilffyrdd a'r porthladdoedd presennol o fewn ardal CBSC i gyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector cludiant.</p>	<p>Dylai Fframwaith SA gynnwys amcanion yn ymwneud â defnyddio ynni, effeithlonrwydd adnoddau, cludiant cynaliadwy, allyriadau nwyon tŷ gwydr a lliniaru newid yn yr hinsawdd.</p>
--	--	--	--

<p><b>Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd</b> Mae ymchwil newid yn yr hinsawdd yn rhagweld cynnydd yn nifrifoldeb ac amllder y digwyddiadau glaw. Mae llifogydd o afonydd, carthffosydd a dŵr wyneb felly'n debygol o gynyddu</p>	<p>Bydd effeithiau a ragwelir o'r newid yn yr hinsawdd hyd at 2050 yn rhoi straen sylweddol ar isadeiledd ac adnoddau sydd ar gael ledled y DU, gan gynnwys yn ardal CBSC a'r effeithiau sy'n</p>	<p>Dylai unrhyw CDLI newydd sy'n deillio o'r Adolygiad CDLI hwn bennu polisiau, cynigion a chanllawiau sy'n ymateb i effeithiau a ragwelir ar gyfer newid yn yr hinsawdd ac yn caniatáu i gymunedau a</p>	<p>Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag addasu newid hinsawdd a gwydnwch asedau amgylcheddol yn ardal CBSC.</p>
---	---	---	---

<p>ledled CBSC yn y dyfodol. Disgwylir i CBSC ddod yn gynyddol agored i lifogydd llanw wrth i lefelau'r môr godi.</p> <p>Awgrymodd adroddiad Rhagweld Llifogydd y Dyfodol 2004 y bydd yr iawndal economaidd blynyddol yng Nghymru yn codi o £70 miliwn yn 2004 i £1,235 miliwn yn yr 2080au o dan y senario mwyaf tebygol. Fodd bynnag, fel y canfuwyd yn yr Adroddiad Stern, gall gweithredu nawr leihau'r difrod economaidd yn y tymor hirach.</p>	<p>gysylltiedig â risg llifogydd.</p>	<p>busnesau yn ardal CBSC addasu i'r hinsawdd sy'n newid.</p>	
--	---------------------------------------	---	--

<p>Mynediad at wasanaethau</p>	<p>Sicrhau mynediad i bawb i gyfleusterau, nwyddau a gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol ac amddifadedd</p>	<p>Mae'r Amcan SA hwn yn canolbwyntio'n ddefnyddiol ar hygyrchedd fel canlyniad economaidd-gymdeithasol, yn hytrach na dim ond perfformiad technegol y rhwydwaith cludiant. Fodd bynnag, mae natur wledig ardal CBSC a'r patrwm aneddiadau gwasgareddig cysylltiedig yn golygu y dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ddigonolrwydd ac effeithiau (boed yn fanteisiol ai peidio) cynigion isadeiledd cludiant newydd y gellir eu hyrwyddo trwy'r Adolygiad CDLI. Byddai cynnwys cyfeiriad at isadeiledd cludiant o fewn Amcan SA yn Fframwaith SA ar gyfer yr Adolygiad CDLI hefyd yn helpu i ddangos cydymffurfiaeth ag Atodlen 2 y Rheoliadau SEA o ran asesu LSE o'r Adolygiad CDLI ar "<i>asedau materol</i>".</p> <p>Yn ogystal, gallai un neu ragor o Amcanion SA o fewn y Fframwaith AC ar gyfer yr Adolygiad CDLI hefyd fynd i'r afael â materion cysylltedd nad ydynt yn ymwneud â chludiant, yn enwedig darparu band eang cyflymder uchel a chyfleustodau mewn cymunedau gwledig.</p>
--------------------------------	---	--

<p>1. Tirwedd</p>	<p>Sicrhau bod tirweddau arbennig, unigryw, lled-naturiol a hanesyddol a'u nodweddion penodol yn cael eu cadw a'u gwella</p>	<p>Mae'r Amcan SA hwn yn nodi'n gryno elfennau allweddol diogelu tirwedd sy'n berthnasol i ardal CBSC, gan gynnwys tirweddau hanesyddol. Felly, mae'n dangos cydymffurfiaeth ag Atodlen 2 y Rheoliadau SEA o ran asesu LSE ar "dirwedd" ac mae hefyd yn ymwneud ag asesiad LSE ar "<i>dreftadaeth ddiwylliannol</i>". Fodd bynnag, gan fod ardal CBSC yn cynnwys tirweddau gwledig yn bennaf gydag ystod o sensitifrwydd a gorgyffwrdd â Pharc Cenedlaethol Eryri, gallai'r Fframwaith SA ar gyfer yr Adolygiad CDLI gael ei ehangu i ystyried yn benodol newidiadau mewn patrymau aneddiadau, amwynder gweledol ac effeithiau ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.</p>
-------------------	--	---

<p>2. Cludiant a Chyfathrebu: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd trwy wella isadeiledd a chreu rhwydwaith cludiant cynaliadwy, a hefyd sicrhau mynediad at ddulliau cyfathrebu a chyfleustodau o ansawdd uchel.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd?</li> <li>• Gwella cysylltedd yn ardal CBSC ac i ardaloedd eraill?</li> <li>• Lleihau dibyniaethau car ac annog newid i ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio, gan gynnwys ar gyfer pobl a nwyddau?</li> <li>• Cefnogi'r cynnydd yn y nifer o bobl sy'n defnyddio teithio llesol?</li> <li>• Gwella hygyrchedd, gallu a diogelwch y rhwydwaith cludiant?</li> <li>• Lleihau llif traffig a thagfeydd?</li> <li>• Gwella ansawdd ac integreiddio cludiant cyhoeddus?</li> <li>• Gwella'r ddarpariaeth o isadeiledd cyfathrebu o ansawdd uchel?</li> <li>• Gwella isadeiledd cyfleustodau i gefnogi twf economaidd a diwallu anghenion y boblogaeth?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Agoswydd i'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus (arosfannau bysiau a gorsafoedd trên).</li> <li>• Agoswydd i'r rhwydwaith ffyrdd strategol (traffyrdd a chefnffyrdd).</li> <li>• Agoswydd at rwydweithiau teithio llesol presennol.</li> <li>• Agoswydd at fannau cul o ran tagfeydd.</li> <li>• Argaeledd a gallu isadeiledd cyfleustodau i wasanaethu'r safle.</li> <li>• Darpariaeth arfaethedig o isadeiledd cludiant neu gyfathrebu newydd neu wedi'i uwchraddio o fewn neu i gysylltu â safleoedd ymgeisiol.</li> </ul>
<p>3. Risg Dŵr a Llifogydd: Gwarchod, diogelu a gwella amgylcheddau dŵr ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, tra'n lleihau'r risg o lifogydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella ansawdd y dyfrffyrdd sy'n helpu i fodloni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr?</li> <li>• Cynnal neu wella statws ecolegol a chemegol yr amgylchedd dŵr?</li> <li>• Effeithio ar faint o ddŵr wyneb sy'n ffoi i mewn neu'n cael ei dynnu o gyrff dŵr?</li> <li>• Cefnogi gwelliannau i isadeiledd dŵr (cyflenwad dŵr a charthffosiaeth)?</li> <li>• Lleihau'r risg o lifogydd o bob ffynhonnell llifogydd i bob person, eiddo, isadeiledd ac asedau amgylcheddol?</li> <li>• Rheoli risgiau llifogydd gweddilliol yn briodol ac osgoi risgiau llifogydd newydd?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Agoswydd at Barthau Risg Llifogydd.</li> <li>• Agoswydd i ddyfrffosydd a dyfrhaenau.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ceisio lleihau datblygiad newydd mewn ardaloedd sy'n agored i risg llifogydd neu liniaru'r potensial ar gyfer risg o'r fath?</li> <li>• Hyrwyddo defnyddio systemau draenio trefol cynaliadwy?</li> </ul>	
<p>4. Creu Lleoedd Cynaliadwy: Mwyhau'r defnydd effeithlon o dir ac isadeiledd a gwella ansawdd dylunio i greu lleoedd gwych i bobl.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo pensaernïaeth a dylunio o ansawdd uchel sy'n cryfhau natur unigryw a meithrin ymdeimlad o le?</li> <li>• Creu a chynnal parth cyhoeddus diogel a deniadol sy'n annog pobl i gerdded a beicio?</li> <li>• Sicrhau lleoli, graddfa, mas a dwysedd datblygiad priodol?</li> <li>• Gwneud y defnydd gorau o dir, gan gynnwys trwy flaenoriaethu ailddatblygu safleoedd tir llwyd a lleoli defnyddiau sy'n denu llawer o ymwelwyr yn agos at y rhwydwaith cludiant cyhoeddus?</li> <li>• Lleihau cyfleoedd ar gyfer troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy leoli a dylunio datblygiad newydd?</li> <li>• Darparu parth cyhoeddus sy'n teimlo'n ddiogel i'r holl ddefnyddwyr bob amser?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tir llwyd neu dir glas a ddatblygwyd o'r blaen.</li> <li>• Agosrwydd at rwydweithiau teithio llesol.</li> </ul>

## 5. Canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar y CDLI a Chasgliadau'r Adroddiad Adolygu

Mae pwyslais cryf ar ddiogelu a gwella cymeriad ac ymddangosiad yr arfordir a chefn gwlad sydd heb ei ddatblygu, safleoedd o bwysigrwydd tirwedd / cadwraeth, nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol a sicrhau cadwraeth bioamrywiaeth a rhywogaethau gwarchoddedig. Mae'r polisïau a ddefnyddir gyda'i gilydd yn arf wrth gyflawni hyn wrth wrthsefyll datblygiad amhriodol. Fodd bynnag, gellid mabwysiadu mwy o eglurder a fformat i ddilyn cyngor PCC, yn enwedig o safbwynt targedau, gwella bioamrywiaeth ac Isadeiledd Gwyrdd.

Mae pedwar amcan strategol yn berthnasol iawn i'r ardal CDLI hon:

SO1: Darparu lefelau cynaliadwy o dwf poblogaeth.

- SO7: Canolbwyntio datblygiad ar hyd rhwydweithiau isadeiledd presennol ac arfaethedig ac, yn arbennig, mewn lleoliadau sy'n gyfleus i gerddwyr, beicwyr a chluddiant gyhoeddus.
- SO9: Annog patrymau symud effeithlon a chydabod y rôl strategol y bydd yr A55 a'r coridorau rheilffyrdd yn ei chwarae wrth ddiwallu anghenion datblygu Ardal y Cynllun, a rhoi sylw arbennig i leoliadau datblygu sy'n gyfleus i gerddwyr, cerdded a beicio yng Nghonwy i gynorthwyo lleihau allyriadau CO2 o gludiant.
- SO13: Diogelu a gwella hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, gan gynnwys gofod agored, rhandiroedd, iechyd, addysg a hamdden.

Ystyrir bod y polisïau'n cynorthwyo i gyflawni'r Amcanion Strategol i ddelio â lefelau cynaliadwy o dwf yn y boblogaeth yn unol â'r CDLI. Bydd llwybrau cerdded a beicio hefyd yn cael ei hyrwyddo trwy brifgynllunio, cynllunio lleoedd a gweithredu'r Cynllun Teithio Llesol.

## 6. **Sail Dystiolaeth CDLI wedi'i Diweddaru**

### a. **Adolygiad Tir Cyflogaeth 2016-2031 Papur Cefndir**

Bydd hyn yn cyfarwyddo pa dir cyflogaeth sydd angen ei ddyrannu a thrwy hynny hysbysu'r gofynion a'r pwysau ar y rhwydwaith cludiant.

### b. **Hierarchaeth Aneddiadau ac Asesiad Ffin Anheddiad**

Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru i ystyried mân newidiadau ac ar gyfer dyraniadau arfaethedig. Mae'n sicr y bydd angen rhai safleoedd tir glas, fodd bynnag bydd yn rhaid iddynt fynd trwy'r broses asesu lawn.

### c. **SA/SEA**

Mae'r SEA yn ceisio barn Cyrrff Ymgynghori SEA ar y fethodoleg arfaethedig a'r fframwaith asesu ar gyfer SA sy'n cydymffurfio'n gyfreithiol o Adolygiad CDLI Conwy. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn am farn Awdurdodau Ymgynghorol SEA ar benderfyniad sgrinio SEA drafft i fodloni gofynion gweithdrefnol a chadarnhau bod angen ymgorffori'r SEA o fewn yr SA. Mae'r broses SA / SEA yn mynd rhagddi ac mae'n rhedeg ochr yn ochr â pharatoi'r CDLIN.

### d. **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Bydd angen diwygio'r adroddiad hwn i asesu effaith ar gynefinoedd o bwysigrwydd Ewropeaidd a bydd yn ffurfio Papur Cefndir i'r CDLIN.

### e. **Cynllun Teithio Llesol Conwy a'r map llwybr.**

Mae hyn yn cael ei baratoi i nodi llwybrau diogel a chynaliadwy mewn aneddiadau presennol. Bydd manteision polisi a thraws-strategaeth yn y dyfodol yn cael eu huchafu trwy'r CDLIN.

### f. **Cyd-Brotocol Risg Llifogydd**

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio cyd-brotocol i'r dull o ddatblygu yn ardal arfordirol Dwyrain y sir sy'n destun risg llifogydd. Bydd yn cael ei ddiwygio fel rhan o'r CDLIN i archwilio potensial datblygu yn yr ardal a effeithir.

## **7. Polisiâu a Chynigion Defnydd Tir Posibl**

Ystyrir bod y polisiâu'n cynorthwyo i gyflawni Amcanion Strategol SO1, SO4, SO7, a SO13 wrth hyrwyddo cludiant cynaliadwy trwy leoli datblygiad yn ofalus lle mae hefyd yn dderbyniol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol.

Mae pwyslais cryf ar ddiogelu a gwella cymeriad ac ymddangosiad yr arfordir a chefn gwlad sydd heb ei ddatblygu, safleoedd o bwysigrwydd tirwedd / cadwraeth, nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol a sicrhau cadwraeth bioamrywiaeth a rhywogaethau gwarchoddedig. Mae'r polisiâu a ddefnyddir gyda'i gilydd yn arf wrth gyflawni hyn wrth wrthsefyll datblygiad amhriodol. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i hyrwyddo lleihau teithiau ceir preifat, trydaneiddio llwybrau, ac adnoddau rhwydwaith isadeiledd gwyrdd. Bydd llwybrau cerdded a beicio hefyd yn cael ei hyrwyddo trwy brifgynllunio, cynllunio lleoedd a gweithredu'r Cynllun Teithio Llesol.

### **Yr Angen am Sail Dystiolaeth Bellach**

Nid oes pryderon ynghylch gweithredu'r amcanion strategol, fodd bynnag, mae angen mwy o eglurder o ran gosod targedau yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac amlygu'r manteision traws-strategaeth. Mae angen gwell integreiddio ar strategaethau rhanbarthol hefyd.

### **Materion a phroblemau allweddol**

Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (2017), Cynllun Gweithredu Cerdded a Beicio Cymru (2009-2013) a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Diwygiwyd PCC hefyd ym mis Tachwedd 2016. Mae Strategaeth a Gweledigaeth Dwf ar gyfer Economi Gogledd Cymru (2016) a Chynllun Corfforaethol Conwy hefyd wedi'u cyflwyno. Mae'r amcanion cludiant cynaliadwy allweddol yn debyg i'r rhai blaenorol, ond mae rhai gofynion polisi a deddfwriaeth newydd y mae angen eu cynnwys ym mholisiâu'r CDLI.

Daeth y wybodaeth wrth baratoi'r CDLI mabwysiedig, yn rhannol, o Gynllun Cludiant Rhanbarthol Conwy ac mae Cydgynllun Cludiant Gogledd Cymru hefyd yn cael ei adolygu, a fydd yn cael dylanwad ar rai agweddau ar adolygu'r CDLI. Bydd prosiectau sy'n gysylltiedig â datblygu o fewn y CDLI neu rai yr ystyrir bod modd eu darparu fel arall o fewn cyfnod y Cynllun hefyd wedi'u cynnwys.

Nid yw'r cynlluniau cludiant blaenoriaethol a nodir yng Nghynllun Cludiant ar y Cyd Gogledd Cymru'n cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y CDLI ac felly mae angen ystyried goblygiadau cynlluniau felly ar bolisiâu ac ar ddefnyddio tir er mwyn sicrhau bod modd eu cyflawni yng nghyd-destun polisi lleol.

### **Casgliad**

Mae'r Papur Pwnc yn ymdrin â'r materion allweddol a nodwyd a'r meysydd hynny y bydd angen eu newid yn yr adolygiad o'r CDLI. Yn achos Amcanion Strategol mae'r pwnc cludiant yn ymwneud â'r holl themâu allweddol: 'Lleoedd Nodedig a Naturiol' a 'Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus' a 'Mannau Llesol a Chymdeithasol' yng Nghonwy. Mae'r rhain yn cynnwys amcanion pellach ynghylch sut y gellir integreiddio cludiant cynaliadwy yn ardal y cynllun. Bydd hyn yn golygu gweithio'n unol â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, gan sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen am dwf cynaliadwy a dosbarthu safleoedd ar gyfer tai a chyflogaeth, a chael manylion y polisiâu hynny y mae angen eu hadolygu yn sgil newidiadau yn y cyd-destun Ewropeidd/cenedlaethol/lleol. Mae'n amlwg bod newidiadau cyd-destunol arwyddocaol wedi digwydd mewn perthynas ag uchelgeisiau

cludiant rhanbarthol ers mabwysiadu'r CDLI a rhagwelir nifer o newidiadau ar gyfer y CDLIN.

Mae angen i'r CDLI Newydd gael cydbwysedd rhwng bod yn ymatebol i ymgorffori dyheadau polisi cenedlaethol. Bydd gwaith yn cael ei wneud i fireinio ac adolygu polisiâu presennol, gan gynnwys swyddogion allweddol, aelodau a phartïon eraill â diddordeb trwy broses adolygu'r CDLI. Ystyrir bod yr adran Cludiant Cynaliadwy yn darparu fel y bwriadwyd, fodd bynnag, mae yna lawer o ddiweddariadau i'w cyflawni o ganlyniad i gynlluniau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn cyd-fynd â pholisiâu a dyheadau'r CDLIN. Bydd hyn yn cynnwys ymgorffori canllawiau newydd ar Isadeiledd Gwyrdd a draenio cynaliadwy.